**Rhif: WG45886**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Newidiadau i'r gofynion ar ddarparwyr rhai gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir

Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

- Dirymu diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020; ac
- Egluro'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C' dan reoliad 49

Medi 2022

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80364-858-3

## Trosolwg

Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru i’n hymgynghoriad: WG45087 - Newidiadau i'r gofynion ar ddarparwyr rhai gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynnig i ddirymu'r diwygiadau dros dro sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, ar 31 Hydref 2022. Mae’r diwygiadau’n ymwneud â gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, a gwasanaethau cymorth gofal cartref i oedolion.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn hefyd ar ddiwygiad arfaethedig i reoliad 49 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 i egluro'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C', a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwasanaethau hynny sy'n seiliedig ar lety y mae gofynion ychwanegol mewn perthynas â mangreoedd newydd yn gymwys iddynt.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 20 Mai 18 a daeth i ben ar 28 Gorffennaf 2022.

## Camau gofynnol

Er gwybodaeth yn unig y mae’r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Tîm Gweithredu'r Rhaglen a'r Ddeddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: RISCAct2016@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion yn electronig yn unig ac mae a gael ar wefan Llywodraeth Cymru. https://llyw.cymru/newidiadau-ir-gofynion-ar-ddarparwyr-rhai-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-rheoleiddiedig

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 4

Cynnig 1: dirymu diwygiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 ..... 5

Cynnig 2: Egluro'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C' yn rheoliad 49 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2017 ..... 20

Materion cysylltiedig a godwyd gan ymatebwyr ..... 23

Y camau nesaf ..... 25

Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr ..... 26

## Cyflwyniad

1. Roedd yr ymgynghoriad[1] hwn yn ceisio barn ar ddau gynnig i wneud diwygiadau pellach i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017[2] ('y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig).

2. Yn gyntaf, dirymu'r diwygiadau dros dro sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed i ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth gofal cartref i oedolion, drwy Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020[3] (‘Rheoliadau 2020’). Eu nod oedd cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol brys i oedolion, lle'r oedd angen hyn o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, a symleiddio'r gwiriadau cyn cyflogi sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr preswyl a gofal cartref newydd, mewn sefyllfaoedd lle'r oedd yn anodd cael gafael ar y wybodaeth hon.

3. Yn ail, egluro'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C' dan reoliad 49 o Reoliadau 2016, er mwyn sicrhau bod gofynion ychwanegol mewn perthynas ag adeiladau newydd yn gymwys boed y fangre wedi'i chynnwys yng nghofrestriad darparwr blaenorol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[4] (‘Deddf 2016’) neu ei bod yn fangre neu'n sefydliad perthnasol yr oedd unigolyn wedi’i gofrestru’n gysylltiedig ag ef o dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol o'r fath yn flaenorol.

4. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 20 Mai a daeth i ben ar 18 Gorffennaf 2022. Cafwyd cyfanswm o 35 o ymatebion: 28 drwy'r arolwg ar-lein a 7 a gyflwynwyd drwy e-bost. Dim ond un ymateb na ddefnyddiodd y ffurflen ymateb ar-lein neu’r ffurflen ymgynghori. Roedd yn well gan y rhan fwyaf o ymatebwyr (21) aros yn ddienw tra nododd eraill eu bod yn ymateb ar ran sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Fforwm Gofal Cymru; Unsain; Tîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent a Chyngor Sir y Fflint. Cafwyd rhai ymatebion gan ddarparwyr gwasanaethau - naill ai wasanaethau cartrefi gofal neu wasanaethau cymorth cartref - yn ogystal â nifer bach gan unigolion.

5. Mae crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion i bob un o'r cynigion wedi'u cynnwys yn y ddwy adran nesaf.  Mae rhestr o’r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A.

---

[1] https://llyw.cymru/newidiadau-ir-gofynion-ar-ddarparwyr-rhai-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-rheoleiddiedig
[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1264/contents/made
[3] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/570/made
[4] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents

**Cynnig 1: dirymu diwygiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020**

## Y Cefndir

1. Yn ystod gwanwyn 2020, gan weithio mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC'), nododd Llywodraeth Cymru nifer fach o newidiadau y gellir eu gwneud i reoliadau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[5] ('Deddf 2016') y gellid eu gwneud i gefnogi darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig wrth ymateb i'r pandemig Covid-19 a rheoli ei effaith. Roedd y newidiadau hyn yn ymwneud â gwasanaethau cartrefi gofal, sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth gofal cartref i oedolion. Nid oedd effaith ar y gofynion ar wasanaethau rheoleiddiedig eraill.

2. Wedi ymgynghori ag aelodau Grŵp Cynllunio ac Ymateb Gofal Cymdeithasol Covid-19[6] – gan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol; darparwyr gofal cymdeithasol; y sector gwirfoddol; darparwyr tai; Gofal Cymdeithasol Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru – yn ogystal ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol; a Phrif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol Cymru, cymeradwywyd Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020[7] ('Rheoliadau 2020') gan y Senedd ar 3 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 5 Mehefin 2020. Cyhoeddwyd canllawiau[8] cysylltiedig i gynorthwyo darparwyr gwasanaethau ac eraill i ddehongli'r newidiadau; i esbonio sut y gallent weithio'n ymarferol; ac i atgyfnerthu bod yr holl ofynion eraill yn parhau i fod mewn grym.

### Disgrifiad o'r newidiadau a wnaed gan Reoliadau 2020

3. Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017[9] ('y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig') mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, drwy greu eithriadau cyfyngedig nad ydynt i'w trin fel gwasanaeth rheoleiddiedig. Yn ail, drwy lacio'r gofynion ar rai darparwyr, o dan amgylchiadau penodedig, mewn perthynas â gwybodaeth a dogfennau sydd

[5] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents
[6] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/rheoliadau-gwasanaethau-rheoleiddiedig-darparwyr-gwasanaethau-ac-unigolion-cyfrifol-cymru-diwygio-coronafeirws-2020-datganiad-ymgynghori.pdf
[7] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/570/made
[8] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/rheoliadau-gwasanaethau-rheoleiddiedig-darparwyr-gwasanaethau-ac-unigolion-cyfrifol-cymru-diwygio-coronafeirws-2020-datganiad-ymgynghori.pdf
[9] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1264/contents/made/welsh

i'w cadw am bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth ac am letya oedolion mewn ystafelloedd a rennir.

4. Mae Rheoliad 4 o Reoliadau Diwygio'r Coronafeirws (eithrio rhag cwmpas gwasanaethau cartrefi gofal) yn diwygio rheoliad 2 o’r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig i’r perwyl nad yw darparu llety ynghyd â nyrsio neu ofal, pan fo'r llety a'r nyrsio neu'r gofal yn cael eu darparu i oedolion a bod angen y gwasanaethau o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, i'w drin fel gwasanaeth cartref gofal at ddibenion Deddf 2016. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol mae'r eithriad hwn yn gymwys:

- mae’r gwasanaeth i'w ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu
- mae'r gwasanaeth i'w gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac fe'i darperir naill ai:
    - gan ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi'i gofrestru o dan Ddeddf 2016 ac sy'n darparu gwasanaeth cartref gofal sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu
    - gan ddarparwyr cartrefi gofal yn Lloegr sydd eisoes wedi'u cofrestru â’r Care Quality Commission.
- ac mae'r person sy'n bwriadu darparu'r gwasanaeth wedi hysbysu Gweinidogion Cymru ymlaen llaw (yn ymarferol, AGC, gan ddefnyddio ffurflen hysbysu orfodol).

5. Yn yr un modd, mae Rheoliad 5 o Reoliadau 2020 (eithrio rhag cwmpas gwasanaethau cymorth gofal cartref) yn diwygio rheoliad 3 o’r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig i'r perwyl nad yw darparu gofal a chymorth i oedolion, lle mae angen y gofal a'r cymorth o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, i'w drin fel gwasanaeth cymorth gofal cartref at ddibenion Deddf 2016. Unwaith eto, dim ond yn yr amgylchiadau canlynol mae'r eithriad hwn yn gymwys:

- mae’r gwasanaeth i'w ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu
- mae'r gwasanaeth i'w gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac fe'i darperir naill ai:
    - gan ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi'i gofrestru o dan Ddeddf 2016 ac sy'n darparu gwasanaeth cymorth gofal cartref i oedolion, neu
    - gan ddarparwyr asiantaethau gofal cartref yn Lloegr sydd eisoes wedi'u cofrestru â’r Care Quality Commission.

- ac mae'r person sy'n bwriadu darparu'r gwasanaeth wedi hysbysu Gweinidogion Cymru ymlaen llaw (yn ymarferol, AGC, gan ddefnyddio ffurflen hysbysu orfodol)

6. Mae rheoliad 6 o Reoliadau 2020 (addasrwydd staff) yn diwygio rheoliad 35 o’r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig i’r perwyl a ganlyn: os yw darparwr gwasanaeth sy’n darparu gwasanaeth gofal cartref, sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaeth cymorth gofal cartref i oedolion, mae'r gofyniad yn 35(2)(d) i berson – darpar gyflogai – ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth gyflawn a boddhaol am faterion penodol i'w drin fel pe bai wedi ei fodloni:

   - os yw’r unigolyn yn methu, yn rhesymol, â darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth gyflawn a boddhaol oherwydd lledaeniad y coronafeirws;
   - os yw'r unigolyn yn darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth mor gyflawn a boddhaol ag sy'n rhesymol ymarferol; ac
   - os yw’r wybodaeth neu'r ddogfennaeth a ddarperir ar gael yn y gwasanaeth i'w harchwilio gan AGC.

   Y materion penodol hynny yw:

   - dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan y cyflogwr diwethaf, os oes un;
   - tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol;
   - hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth; a
   - thystiolaeth o allu ieithyddol boddhaol at ddibenion darparu gofal a chymorth i'r unigolion hynny y mae'r gweithiwr i ddarparu gofal a chymorth iddynt.

7. Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2020 (ystafelloedd a rennir) yn diwygio rheoliad 45 o’r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig 2020 i’r perwyl y caiff darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal wneud cais i AGC i amrywio eu cofrestriad er mwyn mynd 15% yn uwch na chyfanswm nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth mewn ystafelloedd a rennir, os oes angen darparu llety o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws.

**Defnyddio’r diwygiadau**

8. Roedd yr holl ddiwygiadau yn cynnwys diogeliadau neu roeddent yn cyd-fynd â’r gofynion sy’n bodoli’n barod, er mwyn sicrhau rhywfaint o oruchwyliaeth gan Weinidogion Cymru (sef AGC yn ymarferol), fel rheoleiddiwr

gwasanaethau. Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n bwriadu darparu gwasanaeth a allai fod wedi'i eithrio, drwy Reoliadau 2020, rhag cofrestru fel gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth gofal cartref, hysbysu AGC yn gyntaf, gan ddefnyddio ffurflen benodedig. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy’n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu gymorth gofal cartref i oedolion, sicrhau bod yr wybodaeth neu'r ddogfennaeth y maen nhw wedi'i chael mewn perthynas â'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar gael i'w harchwilio. Raid i unrhyw gais i amrywio uchafswm capasiti cartref gofal i oedolion gael ei gymeradwyo gan AGC.

9. Ers i Reoliadau 2020 ddod i rym ar 5 Mehefin 2020, mae AGC yn adrodd fel a ganlyn:

    - gwnaed 12 hysbysiad o'r bwriad i ddarparu llety a nyrsio neu ofal i oedolion, yn ymwneud â Covid-19. O'r rhain, nid aeth rhai ymlaen i ddarparu'r gwasanaeth ac roedd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth ddarparu gwasanaeth yn awdurdodau lleol, gan ddarparu gwasanaeth i nifer bach o bobl ar y tro, yn aml fel lleoliad cam-i-lawr/ailalluogi ar ôl rhyddhau unigolyn o'r ysbyty. Dim ond un gwasanaeth sy'n parhau i fod yn weithredol ac mae'r darparwr wedi nodi ei fwriad i gofrestru hwn fel gwasanaeth cartref gofal.

    - ni wnaed unrhyw hysbysiadau o'r bwriad i ddarparu gofal a chymorth (gofal cartref) i oedolion, yn ymwneud yn benodol â Covid-19.

    - dim ond un cais perthnasol a gymeradwywyd i amrywio uchafswm capasiti gwasanaeth cartref gofal.

10. Nid yw gwaith arolygu diweddar wedi tynnu sylw at unrhyw ddibyniaeth eang ar y newidiadau i'r gofynion i sicrhau bod gwybodaeth a dogfennaeth ar gael mewn perthynas â'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae rhai darparwyr wedi sôn am anawsterau wrth recriwtio, yn gyffredinol, ond nid wrth gynnal a dogfennu gwiriadau cyn cyflogi.

**Y rheswm dros newid**

11. Fel y nodir yn Gyda'n Gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: Covid19 - Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig a'r Cynllun Pontio Gofal Cymdeithasol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, mae sefyllfa Covid-19 yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol ers y 'sefyllfa o argyfwng' a gafwyd ar ddechrau'r pandemig, pan wnaed Rheoliadau 2020. Golygodd y brechu helaeth, llai o dderbyniadau i’r ysbyty a llai o farwolaethau, a gwell mesurau atal a rheoli heintiau, bod modd codi’r rhan fwyaf o’r amddiffyniadau / cyfyngiadau cyfreithiol yng Nghymru ddiwedd mis Mawrth 2022, gyda'r ffocws

bellach yn symud tuag at fyw gyda’r coronafeirws, gyda chanllawiau priodol a mesurau diogelu ymarferol effeithiol ar waith.

12. Daeth y ddarpariaeth yn Neddf Coronafeirws 2020 i sicrhau y gellid cofrestru gweithwyr cymdeithasol dros dro mewn sefyllfaoedd brys, a phwerau – na chafodd eu defnyddio – i gymhwyso neu addasu gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ben ddiwedd mis Mawrth 2022 hefyd.

13. O ystyried y sefyllfa bresennol hon, a gwybodaeth gan AGC am y defnydd cyfyngedig o'r hawddfreintiau, nid ystyrir bellach ei bod yn gymesur i'r diwygiadau a wnaed gan y Reoliadau 2020 – a fwriadwyd i helpu i ddarparu gofal cymdeithasol brys i oedolion, yr oedd ei angen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws – barhau ar waith. Rhagwelwyd na fyddai eu hangen am fwy na 9 mis.

14. Er y disgwylir i'r coronafeirws ddod yn endemig yn y tymor hir, rydym yn cydnabod ei fod yn parhau i fod yn gyffredin ar hyn o bryd ac y gallai fod yn fygythiad difrifol, yn enwedig os bydd amrywiolion newydd, mwy niweidiol yn dod i'r amlwg neu wrth i imiwnedd wanhau. Pe bai hyn yn digwydd a'n bod yn dychwelyd at amddiffyniadau iechyd y cyhoedd a mesurau lefel rhybudd uwch, byddwn yn ystyried – gan ymgynghori â rhanddeiliaid – a oes angen unrhyw ymateb deddfwriaethol pellach i gefnogi darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu'n ddiogel.

**Cynnig 1: Crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion**

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno y dylai rheoliad 4 (eithrio rhag cwmpas gwasanaethau cartrefi gofal) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei ddirymu ar 31 Hydref 2022?

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| 23 | 8 | 1 | 1 | 2 |
| 65.71% | 22.86% | 2.86% | 2.86% | 5.14% |

Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebion (88.57%) naill ai'n cytuno neu yn tueddu i gytuno â'r cynnig i ddirymu rheoliad 4 o Reoliadau 2020 ar 31 Hydref 2022. Tynnodd rhai ymatebwyr a oedd yn tueddu i gytuno – ynghyd ag eraill a oedd yn tueddu i anghytuno neu a oedd yn anghytuno – at bwysigrwydd monitro pa mor gyffredin yw Covid-19 a'i oblygiadau parhaus yn y maes gofal cymdeithasol; risg 'tonnau' o haint ac amrywiolion newydd yn y dyfodol. Ac, o ystyried hyn, yr angen i adolygu ac o bosibl adfer y diwygiad hwn, cyn gynted â phosibl, i sicrhau bod y gwasanaethau sydd eu hangen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws yn cael eu darparu. Tynnodd un ymatebwr sylw yr angen i ystyried sut y byddai unrhyw wasanaethau ychwanegol yn seiliedig ar lety yn cael eu staffio, o ystyried materion yn ymwneud â chapasiti ledled Cymru ar hyn o bryd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa barhaus o ran Covid-19. Mae'r pandemig wedi dangos y gallwn, drwy gydweithio, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, ddarparu adnoddau, camau gweithredu a newid deddfwriaethol effeithiol yn gyflym i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol mewn cyfnod o argyfwng. Rydym hefyd wedi dweud yn glir y byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd ac ystyried yn brydlon, gan ymgynghori â rhanddeiliaid, a allai fod yn ofynnol cael ymateb deddfwriaethol pellach i sicrhau darpariaeth ddiogel o ofal a chymorth.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i fonitro pwysau staffio ar draws y sector gofal cymdeithasol. Yn ystod y pandemig roedd hyn

yn cynnwys adleoli staff dros dro i’r meysydd lle'r oedd yr angen mwyaf. Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid (gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru) yn ehangach, i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol. Rydym wedi rhoi nifer o fesurau ar waith a luniwyd i gynyddu capasiti'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys ymgyrchoedd recriwtio proffil uchel, defnyddio’r brand Gofalwn.Cymru[10]; lansio cyfres o gyrsiau *Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol*; ac wedi bwrw ymlaen â’n rhaglen ehangach o broffesiynoli'r gweithlu, sy'n cynnwys cofrestru'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cartrefi gofal. Fel aelod o'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni ein hymrwymiad i wella cydnabyddiaeth a thâl y gweithlu (gan gynnwys telerau ac amodau) ac ym mis Ebrill 2022, cyhoeddwyd canllawiau[11] ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, gyda'r bwriad o hybu dull cyson o dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol.

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno y dylai rheoliad 5 (eithrio rhag cwmpas gwasanaethau cymorth gofal cartref) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei ddirymu ar 31 Hydref 2022?

| **Cytuno** | **Tueddu i gytuno** | **Tueddu i anghytuno** | **Anghytuno** | **Heb ateb** |
|---|---|---|---|---|
| 27 | 5 | 2 | 0 | 1 |
| 77.14% | 14.29% | 5.14% | 0% | 2.86% |

Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebion (91.43%) yn cytuno neu’n tueddu i gytuno â'r cynnig i ddirymu rheoliad 5 o Reoliadau 2020 ar 31 Hydref 2022. Fel yn achos yr ymatebion i gwestiwn 1, roedd galwadau am barhau i gadw llygad ar y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd ac ystyried ailgyflwyno'r diwygiad, pe bai angen. Mynegodd un ymatebwr bryder y gallai effaith amrywiolion newydd roi pwysau ychwanegol ar ysbytai yn yr hydref/gaeaf, gan arwain at yr angen am gapasiti ychwanegol yn gymuned. Roedd ymatebwyr a oedd yn tueddu i anghytuno â’r cynnig yn poeni bod y coronafeirws yn parhau i fod yn fygythiad ac yn parhau i gael effaith ar absenoldebau staff.

[10] https://gofalwn.cymru/
[11] https://llyw.cymru/cyflog-byw-go-iawn-i-weithwyr-gofal-cymdeithasol-canllawiau-0

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae mesurau cadarn ar waith, ar draws Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid, i fonitro ac asesu'n effeithiol y sefyllfa sy'n esblygu o ran y coronafeirws (a heintiau anadlol eraill). Rydym wedi cyhoeddi sawl mesurataliol neu ragofalus, gan gynnwys strategaeth y gaeaf i roi brechiadau atgyfnerthu Covid-19 a brechiadau rhag y ffliw[12], i wella diogelwch y rhai sy’n wynebu risg uwch, gan helpu i gefnogi'r GIG yn ystod gaeaf 2022-23. Yn ogystal â galluogi mynediad at frechiadau a thriniaethau priodol, mae ein dull gweithredu cyffredinol yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo mesurau i ddiogelu rhag risg heintiadau; cynnal capasiti (mewn iechyd a gofal cymdeithasol) i ymateb i achosion lleol ac mewn lleoliadau risg uchel; cadw systemau gwyliadwriaeth effeithiol i sylwi ar ddirywiad yn y sefyllfa (megis o amrywiolion niweidiol a mwtaniadau sy'n peri pryder); a pharatoi ar gyfer ymchwydd posibl yn y feirws.

Ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom ymestyn y Cynllun Pontio Gofal Cymdeithasol[13] i ddarparu amddiffyniad parhaus i grwpiau agored i niwed; i ganiatáu i ni barhau i fonitro'r sefyllfa sy'n esblygu, gan gynnwys newidiadau o ran cyffredinrwydd; ac i ystyried pa fesurau y gallai fod eu hangen yn ystod cyfnod yr hydref/gaeaf i helpu i reoli cynnydd posibl mewn heintiau anadlol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu a'i ddiwygio'n rheolaidd yn ôl yr angen, hyd nes y byddwn wedi cyrraedd sefyllfa lle gallwn ei roi o’r neilltu. Er mwyn cefnogi'r cynllun hwn, mae'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau Gofal Cymdeithasol – fforwm a sefydlwyd i gydlynu gwybodaeth am y maes clinigol, y maes gofal cymdeithasol a’r sefyllfa weithredol i lywio dyluniad a gweithrediad strategaethau profi a rheoli heintiau yn effeithiol – yn parhau i gyfarfod bob 3 wythnos ac i argymell gweithredu yn ôl yr angen.

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno y dylai rheoliad 6 (addasrwydd staff) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei ddirymu ar 31 Hydref 2022?

(Mae rheoliad 6 yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau cartref gofal, yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth gofal cartref i oedolion)

[12] https://llyw.cymru/rhaglen-frechur-gaeaf-yn-erbyn-feirysau-anadlol-cynnwys-hydref-gaeaf-2022-i-2023
[13] https://llyw.cymru/atal-rheoli-heintiau-mewn-gofal-cymdeithasol

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| 24 | 9 | 1 | 0 | 1 |
| 68.57% | 25.71% | 2.86% | 0% | 2.86% |

Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebion (94.28%) yn cytuno neu yn tueddu i gytuno â'r cynnig i ddirymu rheoliad 5 o Reoliadau 2020 ar 31 Hydref 2022. Gwnaed galwadau pellach i adolygu’r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd ac ystyried ailgyflwyno'r diwygiadau, pe bai angen. Er bod sawl sylw wedi’i wneud wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, roeddent yn tueddu i ymwneud â materion cyffredinol ran y gweithlu, yn hytrach nag unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddileu'r diwygiadau a wnaed i reoliad 35 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Er enghraifft, dywedodd dau ymatebwr fod rhai darparwyr yn gynyddol amharod i gydymffurfio â cheisiadau cyfeirio mewn hinsawdd recriwtio anodd; sy'n awgrymu y gallai hyn fod yn cael ei wneud i annog staff i beidio â gadael eu swyddi. Gwnaed sylwadau eraill am y nifer fawr o swyddi gwag yn y sector; cyfraddau tâl a llwyth gwaith afresymol i staff gofal cymdeithasol; anghyfartaledd rhwng lwfansau tanwydd a chostau cynyddol; rhai gweithwyr yn talu am eu gwiriadau DBS eu hunain; ffioedd cofrestru a hyfforddiant yn cael ei wneud yn eu hamser eu hunain.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae’n bosibl fod rhai ymatebwyr wedi camddeall neu gamddehongli bwriad, effaith, neu gwmpas y diwygiadau. Roedd un ymatebwr yn credu y gallai adfer yr holl ofynion ynghylch gwiriadau cyn cyflogi gweithwyr newydd gael effaith andwyol ar y posibilrwydd o recriwtio pobl sy'n cyrraedd Cymru o Wcráin a allai fod yn chwilio am waith yn y sector. Yn yr achos hwn, nid yw’r diwygiadau a wnaed i reoliad 35 ond yn gymwys os nad yw'n rhesymol ymarferol i ddarpar staff ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol *oherwydd lledaeniad coronafeirws*. Felly, mewn unrhyw amgylchiadau eraill, byddai angen gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol. Roedd ymatebwr arall o'r farn nad oedd y newidiadau dros dro i reoliad 35 yn lleddfu problemau recriwtio sylweddol, yn gyffredinol, er ei fod yn cydnabod na fyddai hyn yn gwneud hynny, ar ei ben ei hun. Unig fwriad y diwygiadau dros dro oedd symleiddio gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer gweithwyr gofal preswyl a gweithwyr gofal cartref newydd mewn sefyllfaoedd lle'r oedd y wybodaeth hon yn anodd cael gafael arni *o ganlyniad i ledaeniad coronafeirws.*

Er mwyn lliniaru rhai o'r anawsterau recriwtio y mae darparwyr gwasanaethau ym rhoi gwybod amdanynt ar hyn o bryd, rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru ar fesurau sydd wedi'u cynllunio i ddenu,

recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys trwy roi ymgyrchoedd recriwtio ar waith gan ddefnyddio brand Gofalwn.Cymru[14]. Yn ystod 2022, roedd hyn yn golygu cyllid sylweddol ar gyfer ymgyrch eang ar draws pob math o gyfryngau: o hysbysebion teledu a sinema, i hysbysebion printiedig mewn archfarchnadoedd ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi ymrwymo hefyd i weithio fel rhan o'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, mewn partneriaeth â'r sector ehangach, i wella telerau ac amodau cyflogaeth yn y sector. Bydd y Fforwm yn defnyddioi holl brofiad a gwybodaeth i nodi sut y gellid gweithredu Gwaith Teg mewn cyd-destun gofal cymdeithasol, gan gynnwys o ran tâl, amodau gwaith, llais gweithwyr a hyfforddiant gweithwyr; a bydd yn darparu arweiniad i nodi a rhannu arferion gorau ar draws y sector gofal cymdeithasol.

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru ar y cyd *Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal* Cymdeithasol[15], sy'n amlinellu cynllun deng mlynedd i'r sector, gyda chamau gweithredu ar draws saith thema. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion yn ymwneud â gweithlu ymgysylltiedig, iach a llawn cymhelliant; denu a recriwtio; modelau gweithlu di-dor; adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol; addysg a dysgu rhagorol; arweinyddiaeth ac olyniaeth; a chyflenwi a siapio'r gweithlu. O'r 32 cam sydd i'w datblygu yn ystod tair blynedd gyntaf y strategaeth, mae dau o'r rhai sydd eisoes ar y gweill yn cynnwys cynllun gweithlu ar gyfer y gweithlu gweithwyr cymdeithasol ac un ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl, a ddatblygwyd ar y cyd ag AaGIC.

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y dylai rheoliad 7 (ystafelloedd a rennir) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei ddirymu ar 31 Hydref 2022?

(Mae rheoliad 7 yn gymwys i ddarparu llety i oedolion, mewn ystafelloedd a rennir)

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb ateb |
|---|---|---|---|---|
| 22 | 6 | 2 | 2 | 3 |
| 62.86% | 17.14% | 5.14% | 5.14% | 8.57% |

[14] https://gofalwn.cymru/
[15] https://aagic.gig.cymru/files/workforce-strategy/

Roedd mwyafrif clir o'r ymatebion (80%) yn cytuno neu yn tueddu i gytuno â'r cynnig i ddirymu rheoliadau 7 o Reoliadau 2020 ar 31 Hydref 2022. Roedd un ymatebwr a oedd yn anghytuno, yn teimlo ei bod yn ddoeth cadw'r diwygiad yn ei le drwy gyfnod y gaeaf rhag ofn bod cynnydd yn y galw am ofal preswyl. Er hynny, roedd eraill yn teimlo bod adfer cap o 15% yn newid synhwyrol. Roedd un ymatebwr yn credu y dylai'r dewis ynghylch a yw unigolyn yn dymuno rhannu ystafell fod yn ddewis ar eu cyfer hwy ac na ddylai'r uchafswm o 15% effeithio arno.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Diben rheoliad 45 (1)(2)(d) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yw darparu hyblygrwydd ar gyfer defnyddio ystafelloedd a rennir, lle dyna yw dewis y ddau unigolyn o dan sylw, tra bydd sicrhau bod defnydd darparwyr gwasanaethau o'r opsiwn hwn yn cael ei reoli'n briodol. Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o unigolion eisiau ystafell wely o feddiannaeth sengl (eu hunain) ac ni fyddem yn disgwyl i ystafelloedd a rennir ddod yn norm. Felly, mae'r rheoliad yn nodi na ddylai nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir o fewn mangre fod yn fwy na 15% o gyfanswm yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau lle mae unigolion yn dymuno rhannu ystafell.

**Cwestiwn 5:** A ydych yn credu y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol a/neu oblygiadau ariannol i ddirymu unrhyw un o'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020?

| **Cytuno** | **Tueddu i gytuno** | **Tueddu i anghytuno** | **Anghytuno** | **Heb ateb** |
|---|---|---|---|---|
| 7 | 5 | 10 | 10 | 3 |
| 20% | 14.29% | 28.57% | 28.57% | 8.57% |

Cafwyd ymateb cymysg mewn ateb i'r cwestiwn hwn ond roedd mwyafrif y bobl (57.14%) naill ai'n tueddu i anghytuno neu'n anghytuno y byddai unrhyw ganlyniadau anfwriadol a/neu oblygiadau ariannol wrth ddiddymu unrhyw un o'r diwygiadau. Ymhlith yr ychydig sylwadau a wnaed roedd awgrym y dylid casglu unrhyw wersi a ddysgwyd o arferion a ddefnyddiodd y diwygiadau, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio presennol. Roedd un ymatebwr o'r farn y gallai adfer y cap o 15% ar gyfanswm yr oedolion mewn ystafelloedd a rennir arwain at adleoli unigolion. Roedd yr ymatebwr hefyd yn teimlo y gallai rhai pobl a allai fod wedi cael cymorth cartref

(dros dro), wrth adfer o Covid-19, fod wedi meithrin perthynas broffesiynol gyda staff gofal, a gallai'r gwaith o symud y rheiny fod wedi effeithio ar eu llesiant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mesur dros dro yn unig oedd y bwriad i lacio terfyn o 15% ar gyfanswm yr oedolion a oedd yn cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir, ac nid oedd y mesur yn gymwys ond pan oedd ei angen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws. Mae AGC wedi dweud mai dim ond un darparwr a wnaeth gais i amrywio eu cofrestriad er mwyn bod yn fwy na 15%. Felly, nid ydym yn rhag-weld y bydd dirymu'r rheoliad hwn yn golygu bod angen i bobl symud i gartref gofal gwahanol, oni bai mai dyna yw eu dymuniad.

O ran y sylw a wnaed ynghylch dileu cymorth cartref dros dro, ni fydd dirymu rheoliadau 5 o Reoliadau 2020 ar 31 Hydref 2022 yn effeithio ar hyn. Yn yr achosion hyn, bydd cymorth cartref wedi dod i ben os nad oedd gan y person bellach anghenion gofal a chymorth yn dilyn eu hadferiad o Covid-19. Os oedd yn ymddangos bod ganddynt anghenion gofal a chymorth parhaus, bydd yr unigolyn wedi cael hawl i asesiad gan ei awdurdod lleol ac i'r rheini gael eu diwallu, os dyna gafodd ei benderfynu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn dogfennu unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â defnyddio'r hawddfreintiau i fod yn gymwys wrth ystyried adfer neu ymyriadau cyfatebol yn y dyfodol.

**Cwestiwn 6**: A ydych yn credu y bydd dirymu unrhyw un o'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?

Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

i. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau ac ar ba nodweddion y byddai'r effeithiau i'w gweld?

ii. Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Gwnaeth bron i hanner yr ymatebwyr (17 allan o 35) sylw ar y cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r farn na ddylai dirymu'r diwygiadau - sy'n ymwneud yn benodol â lledaeniad y coronafeirws - gael unrhyw effaith neu fawr ddim effaith fel arall ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gan na wnaed unrhyw newidiadau i ddyletswyddau

darparwyr i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a'r holl ofynion eraill a osodwyd arnynt a'u Hunigolion Cyfrifol gan y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai dirymu'r diwygiadau, yn gyffredinol, yn cael effaith gadarnhaol. Mae rhai o'r pwyntiau penodol a godwyd yn cael sylw yn yr ymateb gan Lywodraeth Cymru isod.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Nodwn sylwadau ynghylch heriau posibl sy'n wynebu rhai pobl anabl wrth ddarparu esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth a byddwn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, fel y rheoleiddiwr, i ddod o hyd i atebion i helpu i leddfu hyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gasglu gwybodaeth ddemograffig ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig, a byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i lywio ein hystyriaethau ynghylch effeithiau anghymesur posibl rheoleiddio, yn gyffredinol, gan gynnwys gofynion cofrestru.

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru system eisoes sy'n caniatáu i gyflogwyr wirio cofrestr y gweithlu ar gyfer y gweithwyr cymdeithasol a'r gweithwyr gofal cymdeithasol hynny y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda hwy. Mae'r rheoleiddiwr yn gweithio'n gyson i wella ei wasanaethau, er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr ac unigolion cofrestredig. Gan fod hyn yn dal yn newydd i lawer o unigolion, wrth iddynt ddod yn fwy profiadol gyda'r broses gofrestru, gan lanlwytho copïau digidol o gymwysterau etc i'w cyfrifon ar-lein, bydd hyn yn caniatáu gwasanaeth cyflymach a llyfnach. Rydym yn cydnabod bod potensial i'r system gael ei datblygu ymhellach, i gefnogi cyflogwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol yn well a gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y gallu i gyflogwyr adolygu dogfennau perthnasol (e.e. dangos tystiolaeth o gymwysterau) y mae unigolion wedi eu lanlwytho i'w cyfrif Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cododd dau ymatebwr yr angen i sicrhau bod asesiadau risgiau effeithiol yn cael eu cynnal ar gyfer staff a allai fod â risg anghymesur o uwch o Covid-19, megis staff Asiaidd, Du, Lleiafrifoedd Ethnig neu hil gymysg a rhai ag anableddau neu gyflyrau iechyd perthnasol. Mae Offeryn Asesu Risg Gweithlu Covid-19 Cymru Gyfan yn dal i fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru i unigolion ei ddefnyddio mewn trafodaeth gyda'u rheolwr i werthuso a mynd i'r afael â'u risgiau unigol. Nid yw'r dirymu Rheoliadau 2020 yn effeithio ar y broses asesu hon.

**Cwestiwn 7:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai dirymu unrhyw un o'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn eu cael ar y Gymraeg. Yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg

yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

i. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi?

ii. Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol

Cyflwynodd 13 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn, y mwyafrif yn mynegi'r farn na fyddai effaith ar y Gymraeg. Dim ond un ymateb a gododd y posibilrwydd y gallai fod llai o weithwyr gofal cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg oherwydd effeithiau Covid-19 ar y gweithlu; o ganlyniad, efallai na fydd darparwyr gwasanaethau yn gallu bodloni dewisiadau iaith lafar unigolion yn llawn. Awgrymodd y gallai hyn gael ei liniaru drwy ddarparu cyrsiau Cymraeg ar gyfer staff gofal cymdeithasol.

Nid oes gennym reswm dros gredu bod lledaeniad y coronafeirws wedi arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol.

*Mwy Na Geiriau* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau darpariaeth iaith Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Datblygwyd cynllun pum mlynedd ar gyfer gweithredu'r strategaeth, yn dilyn gwerthusiad annibynnol o weithredu'r strategaeth. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys argymhellion ynghylch cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar y camau hyn gan gynnwys sut y gallem gefnogi darparu hyfforddiant sgiliau Cymraeg yn y sector.

Rydym hefyd wedi darparu cyllid sylweddol drwy ymgyrch Gofalwn.cymru[16] Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi datblygu deunyddiau Cymraeg. Roedd yr ymgyrch helaeth hon yn amrywio ar draws pob agwedd ar y cyfryngau, o hysbysebion teledu a sinema i hysbysebion wedi'u hargraffu mewn archfarchnadoedd ac ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'n ceisio hyrwyddo cyfleoedd am swyddi a gwerth gyrfa o'r fath yn y sector gofal cymdeithasol, er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion capasiti.

**Cwestiwn 8:** Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynnig i ddirymu'r mdiwygiadau a wnaed gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwr wasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020 gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r

[16] https:// Gofalwn.cymru/

Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyflwynodd 13 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mynegodd y mwyafrif y farn na fyddai unrhyw effaith ar y Gymraeg tra gwnaeth eraill sylwadau nad oeddent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â dirymu'r newidiadau ond a gadarnhaodd y dylid parchu dewisiadau iaith ac anghenion cyfathrebu unigolion, gyda gwasanaethau yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg os byddai hyn yn cefnogi eu hanghenion yn y ffordd orau.

**Cynnig 2: Egluro'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C' yn rheoliad 49 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2017**

**Cefndir**

1. Mae Rhan 13 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2017 ('y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig') yn nodi gofynion ychwanegol ynglŷn â safonau ffisegol ystafelloedd a chyfleusterau ar gyfer gwasanaethau newydd yn seiliedig ar lety h.y. cartref gofal, llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Mae'r safonau hyn yn cynnwys isafswm maint ystafelloedd, isafswm maint mannau cymunedol a chyfleusterau mewn ystafelloedd ymolchi en-suite.

2. Mae Rheoliad 49 yn rhagnodi'r tri chategori o "fangreoedd newydd" y mae'r safonau ychwanegol yn gymwys iddynt:

   - Categori A: Mae'r fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn adeilad newydd neu'n adeilad presennol sydd wedi cael ei addasu at ddiben darparu'r gwasanaeth, ac, yn y naill achos neu'r llall, nad yw'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen at ddiben darparu gwasanaeth llety h.y. adeilad newydd neu fangre wedi'i haddasu

   - Categori B: Mae'r fangre yn [adeilad neu adeiladau y mae estyniad yn cael ei ychwanegu ato/atynt] a ddefnyddir at ddiben darparu'r gwasanaeth mewn man a bennir fel amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth, h.y. estyniad i fangre bresennol

   - Categori C: Mae'r fangre yn adeilad a oedd heb ei feddiannu yn union cyn cofrestriad y darparwr gwasanaeth ond a oedd yn cael ei ddefnyddio o'r blaen at ddiben darparu gwasanaeth llety mewn man a bennir fel amod i gofrestriad darparwr gwasanaeth arall. H.y. lle mae mangre a oedd yn cael ei defnyddio gynt ar gyfer darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar lety (gan ddarparwr arall) wedi cael ei phrynu i'w gweithredu gan y darparwr gwasanaeth.

3. Diben Rhan 13 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig oedd sicrhau gwelliant yn yr ystad adeiledig dros amser ond heb ansefydlogi'r farchnad. Felly, nid yw'r gofynion ychwanegol ar gyfer mangreoedd newydd yn gymwys i wasanaethau sydd eisoes wedi'u meddiannu neu mewn sefyllfaoedd lle mae darparwyr gwasanaethau wedi gadael y fangre dros dro at ddibenion ailwampio. Bwriedid i'r categorïau o fangreoedd newydd a nodir yn rheoliad 49 gwmpasu'r holl fathau o fangreoedd y gellid eu defnyddio o bosibl i ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety ac y byddai'r safonau

ychwanegol yn gymwys iddynt. Bwriad ‘Categori C’ oedd cofnodi adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig yn union cyn cofrestriad darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'), ond a oedd wedi cael eu defnyddio yn flaenorol at y diben hwnnw rywbryd yn y gorffennol, gan ddarparwr arall. Y bwriad oedd y dylai hyn fod yn gymwys p'un ai a oedd y fangre wedi'i chynnwys yng nghofrestriad darparwr blaenorol o dan Ddeddf 2016 neu a oedd yn adeilad neu'n sefydliad perthnasol yr oedd unigolyn wedi'i gofrestru mewn perthynas ag ef o dan unrhyw un o'r deddfiadau perthnasol a oedd yn flaenorol yn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol o'r fath.

**Disgrifiad o'r newid a'r rhesymau drosto**

4. Fe'n hysbyswyd mai effaith anfwriadol y geiriad a ddefnyddir yn rheoliad 49 i ddisgrifio 'Categori C' yw eithrio mangreoedd sydd heb eu meddiannu adeg cofrestru, *os* yw cyfnod cynharach eu defnydd yn rhagddyddio cychwyn darpariaethau perthnasol Deddf 2016 ym mis Ebrill 2018. H.y. nad yw'r ddarpariaeth yn ymestyn i fangreoedd heb eu meddiannu a oedd wedi'u cofrestru o dan ddeddfwriaeth flaenorol.

5. Y canlyniad anfwriadol yw nad oes rhaid i unrhyw gartrefi gofal segur, yr oedd unigolyn wedi'i gofrestru mewn perthynas â hwy, er enghraifft, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (neu ddeddfwriaeth gynharach a ddisodlwyd gan y Ddeddf honno) ond nad ydynt wedi'u cynnwys hyd yn hyn o fewn cofrestriad darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf 2016, gydymffurfio â'r gofynion adeiladau ychwanegol yn Rhan 13 o Reoliadau 2017. Mae hyn yn tanseilio'r bwriad polisi o sicrhau gwelliant yn ansawdd yr ystad adeiledig dros amser.

6. Felly rydym wedi ymgynghori ar gynnig i ddiwygio'r disgrifiad o fangreoedd eiddo Categori C i sicrhau bod y bwlch anfwriadol hwn yn cael ei gau ac i roi sicrwydd y bwriedir i fangreoedd ‘Categori C’ gynnwys mangre a sefydliadau perthnasol y cofrestrwyd person mewn perthynas â hwy o dan unrhyw Ddeddf berthnasol a oedd yn darparu yn flaenorol ar gyfer rheolaeth a goruchwyliaeth reoliadol ar wasanaethau sy'n seiliedig ar lety.

**Crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion**

**Cwestiwn 9:** Ym mharagraffau 25 – 32 o'r ddogfen ymgynghori rydym wedi nodi ein bwriad i egluro'r disgrifiad o adeiladau ‘Categori C’ yn rheoliad 49 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, ac wedi esbonio ein sail resymegol dros wneud hyn.

A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig hwn neu ei effeithiau posibl?

Byddwch cystal â chynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol a/neu oblygiadau ariannol; unrhyw effeithiau cadarnhaol neu  negyddol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig; ac effeithiau ar y Gymraeg.

Cyflwynodd 12 o ymatebwyr sylwadau ar y cynnig Categori C, a ennynodd gymysgedd o ymatebion. Mynegodd pum ymatebydd gefnogaeth glir i'r eglurhad a phwysigrwydd buddsoddi yn ansawdd mangreoedd cartrefi gofal, tra mynegodd rhai bryderon cyffredinol am y costau a'r  effaith bosibl ar eu busnesau, neu gwnaethant sylwadau ar y cynnig, ond heb ddatgan safbwynt. Roedd sylwadau eraill yn cysylltu'r cynnig â darparu llety brys gynt, megis mewn perthynas â'r coronafeirws.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ni fydd egluro'r diffiniad o fangreoedd Categori C yn effeithio ar ddarparwyr cartrefi gofal presennol gyda chartrefi sydd eisoes wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae mangreoedd Categori C yn rhai a gofrestrwyd yn flaenorol fel cartrefi gofal (o dan unrhyw ddeddfwriaeth flaenorol), sydd heb eu meddiannu ar hyn o bryd ac sydd heb eu cynnwys mewn cofrestriad darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf 2016 sydd wedi bod yn ofyniad i weithredu gwasanaeth cartref gofal, ers mis Ebrill 2018. Mae Categori C yn gymwys pan fo cartref gofal gwag yn cael ei werthu neu ei brynu at ddibenion ei ailgofrestru fel cartref gofal (yn hytrach na defnyddio'r adeilad at ddiben arall). Er nad oes gennym wybodaeth am y nifer o gartrefi gofal segur, mae'n bosibl y bydd nifer bach o'r fangreoedd hyn yng Nghymru y mae darparwyr yn ceisio eu gwerthu, ac os felly byddai angen i'r prynwr newydd wneud y buddsoddiad angenrheidiol i'r adeilad er mwyn ei ailgofrestru fel cartref gofal. Bwriedir i hyn sicrhau bod gwelliannau yn y dyfodol yn parhau i gael eu gwneud i'r ystad adeiledig heb ansefydlogi'r farchnad trwy gymhwyso'r gofyniad i bob cartref gofal.

Ni fyddai'r newid hwn yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol. Ni fydd yn gymwys i geisiadau i gofrestru ar gyfer mangreoedd  sy'n dod o fewn Categori C a wneir i AGC ar 31 Hydref 2022 neu cyn hynny.

Roedd ychydig o sylwadau am y defnydd o fangreoedd Categori C fel llety brys. Efallai bod rhai o'r ymatebion hyn wedi cyfuno'r materion. Er mai'r cyfrwng ar gyfer diwygio'r diffiniad o Gategori C yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022, mae'r mater hwn yn fater ar wahân i'r mesurau dros dro a roddwyd ar waith i greu capasiti ychwanegol yn y sector.

**Materion cysylltiedig a godwyd gan ymatebwyr**

**Cwestiwn 10:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Gwnaed ystod o bwyntiau cyffredinol gan ymatebwyr mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, gan gynnwys:

- yr angen am barch cydradd a chydnabyddiaeth â staff sy'n gweithio yn y sector gofal iechyd;
- o dan ba amodau y mae staff gofal cymdeithasol yn gweithio a chyfraniad y staff at gynllunio iechyd a diogelwch - gwrando ar eu pryderon a gweithredu arnynt;
- gwelliannau mewn cydnabyddiaeth ariannol a sicrhau bod staff yn cael eu had-dalu'n iawn am eu hamser teithio a chostau; a
- yr amgylcheddau heriol ar gyfer recriwtio a chadw'r gweithlu a chomisiynu gwasanaethau, ar adeg o alw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig cymorth cartref.

Cafodd sylwadau cadarnhaol eu gwneud am y defnydd cyfyngedig o'r diwygiadau sy'n gysylltiedig â Covid, gan ddangos yr ymdrechion anhygoel a wnaed ar draws gofal cymdeithasol mewn ymateb i'r pandemig, i sicrhau'r *ddarpariaeth ddiogel o ofal a chymorth.* Gwnaed pwyntiau hefyd mewn perthynas â'r angen i gael mecanweithiau a phrosesau ar waith i allu ymateb cyn gynted â phosibl, i adfer yr hawddfreintiau, os bydd y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn gwaethygu; ac i gymhwyso gwersi a ddysgwyd wrth roi'r hawddfreintiau ar waith wrth wneud hynny.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn parhau i weithio gydag undebau, cyflogwyr, a llywodraeth leol fel rhan o'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ar ba gamau pellach y gellir eu cymryd i wella telerau ac amodau cyflogaeth y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle i drafod ar y cyd pa gamau pellach y mae eu hangen, a byddai hyn yn cynnwys unrhyw faterion sy'n ymwneud ag amgylcheddau gwaith diogel, iach a chynhwysol ochr yn ochr â nodweddion eraill Gwaith Teg. Rydym wedi ymrwymo felly i weithio gyda'r sector i sicrhau nad ydym yn ei danseilio ac y gallwn ddarparu'r gwasanaeth cryf yr ydym i gyd ei eisiau.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth a gomisiynwyd, fel rhan o'r cynigion uchelgeisiol a thrawsnewidiol yn y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ac, unwaith eto, edrychwn ymlaen at weithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni hyn.

Ni chynigir camau gweithredu pellach ynghylch recriwtio tramor ar hyn o bryd, ond mae Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid trwy ein Fforwm ar amrywiaeth o feysydd yn ymwneud â recriwtio a chadw staff. Byddwn yn parhau i fonitro'r mater hwn wrth iddo ddatblygu i ddeall y rhwystrau a'r materion sy'n deillio o'r pryder hwn; a gweithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid i benderfynu pa gamau y gallai fod eu hangen i fynd i'r afael â hwy.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid fel rydym wedi gwneud yn ystod y pandemig i sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth ac yn gweithredu yn unol â'r data hwn os bydd angen. Yn ogystal, fel y nodir uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn dogfennu unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â defnyddio'r hawddfreintiau a fydd yn gymwys wrth ystyried adfer neu ymyriadau cyfatebol yn y dyfodol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) eisoes wedi ymgynghori ar y broses gofrestru a gwneud sawl newid iddi yn sgil y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig. Bydd y rhain yn helpu i symleiddio'r broses a chymryd i ystyriaeth y profiad y mae'r gweithlu wedi'i gael dros y pandemig ac y gall ei ddefnyddio i ddarparu gofal o ansawdd i'r rhai y maent yn eu gwasanaethu. Mae gwaith pellach o ran darparu mwy o gefnogaeth gan reoleiddiwr y gweithlu i'r gweithlu a chyflogwyr hefyd yn cael ei ddatblygu gyda'r sector a bydd manylion am hyn yn cael ei rannu gan GCC maes o law.

**Y camau nesaf**

1. Mae Rheoliadau a elwir Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022 wedi'u paratoi ac fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ym mis Medi 2022. Byddant yn cael eu trafod ym mis Hydref 2022 ac os bydd y Senedd yn eu pasio, fe ddeuant i rym ar 1 Tachwedd 2022.

2. O 1 Tachwedd 2022 dyma fydd effeithiau hyn:

- Ni fydd eithriad rhag cofrestru fel gwasanaeth cartref gofal i'r rhai sy'n darparu llety ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion, lle bo angen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws.

- Ni fydd eithriad rhag cofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref i'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth, i oedolion, lle bo angen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws.

- Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaethau cymorth cartref i oedolion, gael a darparu yn y gwasanaeth yr holl wybodaeth a dogfennau y mae eu hangen yn Atodlen 1 i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

- Ni fydd darparwyr gwasanaethau'n gallu gwneud cais i AGC i fynd yn uwch na 15% o gyfanswm nifer yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth mewn ystafelloedd a rennir.

- Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gwneud cais o dan adrannau 6 i 11 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) i ddefnyddio mangreoedd sydd heb eu meddiannu ar hyn o bryd, a oedd wedi'u cofrestru o dan unrhyw ddeddfiad perthnasol yn y gorffennol, i ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety - h.y. cartref gofal, llety diogel neu wasanaethau preswyl i deuluoedd – sicrhau bod y rhain yn bodloni'r gofynion mangreoedd ychwanegol o fewn Rhan 6 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau Rheoleiddiedig ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

1. Aria Care Home
2. Dienw
3. Dienw
4. Dienw
5. Dienw
6. Care Without Compromise
7. Dienw
8. Right at Home
9. Dienw
10. Sapphire Streams Ltd
11. Dienw
12. Dienw
13. Dienw
14. Cyngor Sir y Fflint
15. iMeUs HealthCare
16. Dienw
17. Dienw
18. Dienw
19. Innovate Trust
20. Dienw
21. Dienw
22. Y Cyng. Marina Chacon Dawson
23. Pobl Care & Support Ltd
24. Dienw
25. Joan & John Filce
26. Dienw
27. Dienw
28. Fforwm Gofal Cymru
29. Tîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
30. UNSAIN Cymru
31. Dienw
32. Dienw
33. Dienw
34. Dienw
35. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru